# Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards

9fed o Orffennaf 2020

Annwyl Riant/Warcheidwad

**Cyf: Diweddariad dychwelyd i'r ysgol, a threfniadau diwedd tymor.**

**Dychwelyd i'r ysgol.**

Wrth i ni agosáu at ddiwedd ein hail wythnos yn ôl yn yr ysgol, rwy'n falch o adrodd bod staff a'r nifer fawr o ddisgyblion sydd wedi dychwelyd wedi cael profiad cadarnhaol a chalonogol iawn. Mae wedi bod yn bleser gweld ein disgyblion eto, a barnu yn ôl eu hadborth (ynghlwm), mae'n ymddangos eu bod yn falch o fod yn ôl hefyd!

Mae pythefnos eto i fynd cyn ddiwedd y tymor, ac rwy'n annog pob un ohonoch sydd eto i anfon eich plant i'r ysgol i wneud hynny. Gallaf eich sicrhau eu bod yn dod yn ôl i amgylchedd diogel, lle rydym wedi cymryd pob gofal i leihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â Covid-19. Byddai'n braf gweld yr holl ddisgyblion, ac iddyn nhw ein gweld ni, cyn gwyliau'r haf.

**Trefniadau diwedd tymor:**

Yn unol â pholisi Cyngor Sir Penfro (CSP), bydd yr ysgol yn parhau i weithredu o dan trefniadau cyfredol am gyfnod estynedig yn ystod tymor yr haf. Felly, **bydd yr ysgol yn cau am wyliau'r haf am 3:10yp ddydd Iau 23 Gorffennaf.**

Bydd athrawon a staff cymorth yn parhau i gefnogi disgyblion trwy ddysgu o bell (Ystafelloedd Dosbarth Google), a / neu addysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol hyd at y 23ain. Ni fydd unrhyw ddysgu yn digwydd dros wyliau'r haf. Nodwch, bydd gwyliau hanner tymor mis Hydref yn cael ei ymestyn i bythefnos, a bydd yn rhedeg rhwng 19eg o Hydref ac yr 2ail o Dachwedd.

**Cymorth Hwb i ddisgyblion gweithwyr allweddol a disgyblion bregus:**

Yn unol â pholisi Cyngor Sir Penfro, bydd y ddarpariaeth gofal plant yn YBG yn dod i ben ddydd Gwener 24ain o Orffennaf.

Gweler y dolenni isod am fanylion pellach:

https://www.pembrokeshire.gov.uk/newsroom/key-worker-childcare-provision-update

http://www.sir-benfro.gov.uk/ystafell-newyddion/diweddariad-ar-ddarpariaeth-gofal-plant-gweithiwr-allweddol

**Dychwelyd ym mis Medi:**

Mae Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg yng Nghymru, wedi cyhoeddi heddiw (9 Gorffennaf) y disgwyliadau i bob ysgol o ran mis Medi.

Er ein bod yn aros am y canllawiau manwl sy'n ymwneud â'r cyhoeddiad hwn, byddwn yn dechrau cynllunio'n ofalus ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, a rhoi diweddariadau a gwybodaeth bellach i chi dros yr ychydig wythnosau nesaf.

Gweler y ddolen isod am fanylion pellach:

https://gov.wales/education-minister-announces-back-school-plans-september

Yr eiddoch yn gywir

Mr P Edwards

Pennaeth

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716
E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com

Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Canolfan Achrededig CBAC WJEC Accredited Centre

The Open University ITT Programme Partner School

Prifysgol Aberystwyth University